**LGH-05-01 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gwyr |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy (ar wahân i eitem 10) |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol a Thai (eitemau 3 i 5) |

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai (eitemau 3, 6, 7, 8, 9 a 10) |
| Kate Cassidy | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitemau 4 a 5) |
| Ian Thomas | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 4) |
| Richard Shearer | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 5) |
| Peter Owen | Y Gyfarwyddiaeth Tai (eitem 6) |
| Lynne Edwards | Y Gyfarwyddiaeth Tai (eitemau 7 ac 8) |
| Judy Wayne | HACAS Chapman Hendy (eitem 8) / Ymgynghorydd arbenigol (eitem 9) |
| Yr Athro Patrick O'Sullivan | Cadeirydd, Y Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu (eitem 10) |
| Yr Athro Phillip Jones | Y Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu (eitem 10) |
| Phil Roberts | Y Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu (eitem 10) |
| Paul Everall | Pennaeth yr Is-adran Rheoliadau Adeiladu, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau (eitem 10) |
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Tai (eitem 10) |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd Edwina Hart fod ei haelodaeth o Undeb Llafur wedi'i chofnodi ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Peter Law ei fod yn Aelod o Undeb y GMB;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Tom Middlehurst ei fod yn Aelod o UNSAIN;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun;
- Dywedodd Gwenda Thomas ei bod yn Aelod o Undeb y GMB.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-05-01 (p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Dywedodd y byddai'n darparu nodyn i'r Aelodau yn nodi manylion y cyhoeddiadau diweddar ar grantiau lleihau torcyfraith. O ran cyllido'r heddlu, dywedodd Mrs Hart ei bod wedi ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth y DU yngln â chostau ychwanegol plismona Rownd Derfynol Cwpan Worthington a Chwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm, a hefyd yngln â'r fformiwla gyllido.

3.2 Ymrwymodd y Gweinidog i ryddhau i'r Pwyllgor destun llawn ei datganiad diweddar at awdurdodau heddlu ar gynyddu cyllidebau. Cadarnhaodd ei bod wedi penderfynu argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd camau statudol i sefydlu'r egwyddorion y câi cyllidebau awdurdodau heddlu eu barnu arnynt. Cefnogai'r Aelodau y cynnig hwn. Teimlent ei bod yn bwysig bod yr awdurdodau heddlu yn cael eu cyllido'n ddigonol, a hefyd eu bod yn gweithredu'n gyfrifol wrth osod eu cyllidebau. Yr oedd yn holl bwysig taro'r cydbwysedd iawn rhwng cyllid gan y Swyddfa Gartref, cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol a chyllid o'r gyfran o'r dreth gyngor a hawlir.

3.3 Yr oedd yna bryder bod awdurdodau heddlu wedi gwerthu gorsafoedd lleol yr heddlu mewn rhai ardaloedd a'u bod wedyn yn gofyn i'r gymuned leol gynorthwyo gyda'r gost o sefydlu gorsaf newydd. Nododd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar y mater hwn a dywedodd y byddai'n mynd ar ei drywydd yng nghyd-destun ei thrafodaethau ar y fformiwla gyllido.

3.4 Yngln â llifogydd yr hydref diwethaf, croesawai'r Pwyllgor yr estyniad i'r dyddiad cau i awdurdodau gyflwyno hawliadau o dan gynllun Bellwin. Nodwyd bod swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi'r rhestrau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn nodi manylion y gwaith cyfalaf tymor hwy a fyddai'n ofynnol o ganlyniad i'r tywydd garw.

3.5 Croesawai'r Aelodau hefyd y dyfarniad cyllido blynyddol i asiantaethau Gofal a Thrwsio, a fyddai'n atgyfnerthu polisïau gofal cymdeithasol drwy ganiatáu i bobl anabl a'r henoed aros yn eu cartrefi eu hunain. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y modd y cyllidir gwasanaethau Gofal a Thrwsio, gan gynnwys unrhyw gyllid oddi wrth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

3.6 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu datganiad ffeithiol i'r Aelodau yn nodi ei safbwynt mewn perthynas ag adroddiad diweddar yr Archwiliwr Dosbarth ar Gyngor Sir y Fflint. Ailadroddodd mai mater i'r Cyngor oedd rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

3.7 Gwnaeth y Gweinidog y cyhoeddiadau canlynol hefyd:

- Câi'r cynllun gorfodol rhyddhad treth yng nghefn gwlad ei ymestyn i dafarndai bach mewn pentrefi, gorsafoedd petrol a fferyllfeydd. Yn ogystal, byddai'r Gweinidog yn gweithio gyda Chwarae Teg i ostwng y baich trethi ar ddarparwyr gofal plant a meithrinfeydd mewn ardaloedd gwledig. Byddid yn dod â deddfwriaeth gerbron yn yr hydref gyda golwg ar roi'r newidiadau ar waith yn 2002-03.
- Câi rhyw £310,000 ei ddarparu i gefnogi BAWSO (the Black Association of Women Step Out) dros dair blynedd o 2001-02 ymlaen. Dywedodd Mrs Hart fod BAWSO yn helpu menywod a phlant o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n ffoi rhag trais yn y cartref.

- Câi'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref ei ymestyn fel bod gwres canolog sy'n gweithio ar lo yn cael ei newid am system nwy lle bo nwy ar gael, neu am system storio trydan allfrig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y rhwydwaith nwy. Byddai hyn o fudd neilltuol i bobl fregus sy'n ei chael hi'n anodd gweithio a chynnal eu systemau gwres canolog tanwydd solet. Byddai'r Penderfyniad ar y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref yn cael ei ddiwygio'n fuan.

Croesawai'r Pwyllgor y cynigion hyn. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion i'r Aelodau am bob un o'r cyhoeddiadau.

3.8 Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd fod Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol mewn llywodraeth leol i'w sefydlu, yn unol â'r ymrwymiad yn y Cytundeb Partneriaeth. Yr Athro Eric Sunderland fyddai'n cadeirio'r Comisiwn, a châi'r aelodau eraill eu penodi'n fuan. Byddai'r Comisiwn yn dechrau gweithio ym mis Mehefin, a byddai'n rhaid iddo gyflwyno adroddiad ymhen 12 mis. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu copi o gylch gwaith y Comisiwn i'r Aelodau.

3.9 Mynegwyd amrywiaeth barn gan yr Aelodau yngln â sefydlu'r Comisiwn. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn drefnu seminarau ar y gwahanol systemau ethol, a dywedodd y Gweinidog y byddai'n cyfleu hynny i'r Athro Sunderland. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio y câi bobl leyg eu cynrychioli ar y Comisiwn.

3.10 Yn olaf, o ran rhaglen waith y Pwyllgor, cafwyd awgrym y dylai canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Tai Genedlaethol gael eu hystyried dros bedwar sesiwn, gan gynnwys pob un o'r Grwpiau Gorchwyl a fu'n helpu i ddatblygu'r Strategaeth ddrafft. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n sicrhau y byddid yn ymdrin mor drylwyr â phosibl â'r Strategaeth, o ystyried y pwysau ar amser y Pwyllgor.

**Eitem 4: Per cyffredinol yr awdurdodau lleol i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol: LGH-05-01 (p.2)**

4.1 Gwahoddodd y Gweinidog y Pwyllgor i nodi cynnwys arfaethedig y canllawiau drafft mewn perthynas â'r per cyffredinol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n caniatáu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal. Byddai'r per hwn yn mynd ran o'r ffordd tuag at roi per grym cyffredinol i awdurdodau lleol, a fyddai'n eu galluogi i ymgymryd ag ystod eang o gynlluniau er budd eu hardaloedd.

4.2 Dywedodd y Gweinidog fod y papur wedi tynnu sylw at rai materion penodol i'r Pwyllgor. Gofynnodd am eu barn pa un y dylid dod â dyddiad gweithredu'r per newydd ymlaen o 28 Gorffennaf, gan y gallai o bosibl helpu awdurdodau lleol i ymateb i glwy'r traed a'r genau.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Aelodau y per lles newydd. Cytunasant y dylid dod ag ef i rym cyn gynted â phosibl er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o glwy'r traed a'r genau.
- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn briodol caniatáu i gynghorau roi indemniad i'w swyddogion a'u haelodau o dan rai amgylchiadau. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddigolledu swyddogion ac aelodau a oedd wedi mynd i risg ariannol tra'n gweithredu'n ddidwyll fel cyfarwyddwyr cwmnïau ar ran eu hawdurdodau.
- Cafwyd rhywfaint o drafod pa un y dylai cynghorau allu defnyddio cyfraniadau gwirfoddol gan unigolion a chyrff i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion lles. Nodwyd y byddai gweithredu felly yn hwyluso gweithio drwy bartneriaeth a byddai'n gydnaws â'r cynnig sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i ganiatáu i gynghorau godi am wasanaethau dewisol. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar gyfraniadau gwirfoddol.
- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig i'r per lles newydd gael ei ddefnyddio wrth i awdurdod lleol fynd ati i roi ei strategaeth gymunedol ar waith. Fodd bynnag, yr oedd yr Aelodau'n awyddus i roi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i awdurdodau lleol o ran eu defnydd o'r per ac i osgoi bod yn rhy orchmynnol. Yr oedd yn bwysig bod gan awdurdodau yr hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau nad ydynt wedi'u rhagweld.
- Yr oedd yna bryder o hyd bod y per Adran 5 i ddileu neu ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhwystro awdurdodau lleol rhag arfer y per lles yn gorffwys gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol. Teimlai'r Aelodau mai priodol fyddai i'r Cynulliad Cenedlaethol arwain wrth ystyried cynigion i newid deddfwriaeth. Awgrymwyd y dylid sefydlu protocol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddefnyddio'r per Adran 5.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen i roi’r per lles ar waith.

**Eitem 5: Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i awdurdodau lleol roi sylw i faterion anfasnachol wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau:**

**LGH-05-01 (p.3)**

5.1 Wrth gyflwyno’r papur, dywedodd y Gweinidog fod Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau wedi sefydlu Gorchymyn a fyddai’n caniatáu i awdurdodau lleol yn Lloegr roi sylw i faterion ‘anfasnachol’ wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau i ystyried materion megis telerau ac amodau cyflogaeth darpar gontractwyr ac ymddygiad contractwyr a’u gweithwyr mewn anghydfod diwydiannol. Ni fyddai’n effeithio ar y gofynion cyfreithiol ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd, y Gwerth Gorau a’r rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth).

5.2 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu sefydlu Gorchymyn cyffelyb, i roi i awdurdodau lleol yng Nghymru yr un grym o leiaf â'u cymheiriaid yn Lloegr. Byddai’r ymgynghoriad y bwriedid ei gynnal yn gyfle i ystyried a ellid ehangu’r Gorchymyn i gynnwys ystyriaethau pellach, megis cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy.

5.3 Croesawai’r Pwyllgor y Gorchymyn arfaethedig. Teimlent y byddai’n sicrhau bod y gystadleuaeth am gontractau cyngor yn cael ei chynnal ar dir gwastad. Yr oedd yna hefyd gefnogaeth i gynnig y Gweinidog i ymchwilio i weld a fyddai’n bosibl cynnwys canllawiau manwl ar ddyheadau’r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd megis cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy.

5.4 Awgrymwyd y dylid ystyried hefyd pa un y dylai’r Gorchymyn arfaethedig ganiatáu i awdurdodau lleol wahaniaethu o blaid contractwyr lleol a deunyddiau o ffynhonnell leol. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio o hyd â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o’u prosesau contractio. Ymrwymodd i ddarparu nodyn yn egluro’r sefyllfa o ran y rheolau caffael.

5.5 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno papur pellach i’r Pwyllgor yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori y bwriedir ei gynnal ar y Gorchymyn drafft.

**Eitem 6: Gwerth Gorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig: LGH-05-01 (p.4)**

6.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn amlinellu cynigion i landlordiaid cymdeithasol

cofrestredig fabwysiadu'r Gwerth Gorau. Yr oedd yr ymrwymiad i roi'r Gwerth Gorau ar waith ar gyfer yr holl dai cymdeithasol wedi'i nodi yn *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru*, gyda'r disgwyl y byddai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn sefydlu fframwaith cadarn er mwyn adolygu eu holl weithgareddau. Erbyn Ebrill 2002, byddai'r Gwerth Gorau wedi'i ymgorffori yn y Gofynion Rheoliadol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a dyna fyddai ffocws pennaf dull newydd o ymdrin ag archwilio perfformiad.

6.2 Byddai'r gyfundrefn reoliadol sydd i'w chyflwyno o fis Ebrill 2002 yn mesur ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ogystal ag asesu eu strategaeth ar gyfer gwella'u gwasanaethau. Yn sylfaen i hyn ceid cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a fyddai'n ei gwneud yn haws cymharu gwasanaethau tai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn uniongyrchol gyda gwasanaethau tai awdurdodau lleol. Pwysleisiai'r cynigion yr angen i gynnwys tenantiaid a buddianwyr eraill megis awdurdodau lleol ym mhob cam o'r broses Gwerth Gorau.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y ffaith bod y Gwerth Gorau yn cael ei ymestyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ar sail y profiad hyd yma mewn awdurdodau lleol, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig mabwysiadu dull gweithredu sydd â ffocws iddo a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau.
- Yr oedd yna bryder mai'r tenantiaid fyddai'n gorfod talu'r costau a ddeuai i ran landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wrth roi'r Gwerth Gorau ar waith yn y pen draw. Nodwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid ychwanegol yn 2001-02, ac mai'r disgwyl oedd y câi'r costau eu talu o arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Eglurodd John Bader y mecanweithiau rheoliadol i reoli rhenti yn sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Teimlai'r Pwyllgor y dylai agwedd y Cynulliad Cenedlaethol tuag at archwilio'r Gwerth Gorau gyd-fynd â'r agwedd a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Archwilio. Cafwyd awgrym y dylid ystyried yr achos o blaid gwahanu'r gyfundrefn reoliadol arferol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn fwy pendant oddi wrth y gyfundrefn i arolygu ac archwilio'r Gwerth Gorau, er nad oedd rhai Aelodau yn cefnogi hyn.

6.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i roi sylw i farn y Pwyllgor wrth ystyried yr ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**Eitem 7: Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig: LGH-05-01 (p.5)**

7.1 Dywedodd y Gweinidog fod y ddogfen ymgynghorol yn amlinellu dull strategol y Cynulliad Cenedlaethol o ddynodi a diwallu anghenion tai pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, fel rhan o'r Strategaeth Tai Genedlaethol ehangach. Byddai'r Strategaeth Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn help i landlordiaid cymdeithasol adeiladu ar y gwasanaethau sy'n bodoli'n barod, datblygu cynlluniau newydd a sicrhau cydraddoldeb cyfle a byddai'n grymuso unigolion a chymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.

7.2 Câi'r Strategaeth Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ei rhoi ar waith drwy weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys asiantaethau allweddol megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Câi ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori ar 5 Ebrill.

7.3 Croesawai'r Pwyllgor y Strategaeth Tai ddrafft i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a chymeradwyai'r meysydd gweithredu allweddol a amlinellwyd yn y Strategaeth. Cefnogai'r pwyslais a roddwyd ar gyfathrebu rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thenantiaid Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn enwedig y gofyniad ar i landlordiaid cymdeithasol ymgynghori ag unigolion a grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol a sefydlu perthynas â hwy.

7.4 Awgrymwyd bod angen canllawiau pellach ar hyfforddi staff a gyflogir gan landlordiaid cymdeithasol. Cytunodd y Gweinidog i roi ystyriaeth lawnach i fater hyfforddiant yn y ddogfen ymgynghorol derfynol.

7.5 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y papur ymgynghorol drafft ar y Strategaeth Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ystyriaeth. Gwahoddodd y Gweinidog hefyd i roi adroddiad ar ganlyniadau'r ymarferiad ymgynghori maes o law.

**Eitem 8: Adolygiad rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru: LGH-05-01 (p.6)**

8.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur drwy groesawu'r adolygiad rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Dywedodd fod yr adroddiad yn cynnig atebion cadarnhaol ac ymarferol i ddatrys problemau diweddar. Byddai'n galluogi'r Ffederasiwn i symud ymlaen mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod yna lawer i'w ganmol yn y ffordd y mae'r Ffederasiwn yn gweithredu. Yr oedd hyn yn cynnwys cyfraniad y Ffederasiwn at yr agenda polisi, y gefnogaeth a'r hyfforddiant a roddir i denantiaid a'r ymdrech wirfoddol sylweddol a roddir gan y Pwyllgor Rheoli.

8.2 Dywedodd y Gweinidog fod cylch gwaith yr adolygiad wedi'i ehangu er mwyn rhoi cyngor ar anghydfod rhwng unigolyn a'r Ffederasiwn ac ar fframwaith priodol i ddatrys anghydfod, a gwneud argymhellion o ran cod ymddygiad i'r Ffederasiwn. O ganlyniad, gwnaed argymhellion yngln â sefydlu trefn datrys anghydfod o fewn pob grp tenantiaid; datrys anghydfodau yn fuan gan ddefnyddio canolwr neu gymrodeddwr lle bo raid; gwella'r hyfforddiant i denantiaid mewn materion trefniadol; ac egluro rôl y Ffederasiwn mewn anghydfodau.

8.3 Ers i'r pryderon cychwynnol gael eu codi, yr oedd y Ffederasiwn wedi gwneud llawer i ymdrin â'i broblemau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Rheoli roi ymateb ffurfiol erbyn 23 Ebrill, a fyddai'n cynnwys manylion am sut ac erbyn pryd y byddid yn rhoi sylw i'r argymhellion. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i'r Ffederasiwn fod yn ddylanwad cryf a chydlynol wrth i bolisïau a threfniadau cefnogi tenantiaid gael eu datblygu. Ni fwriadai leihau cyllid grant y Ffederasiwn ar sail yr adroddiad.

8.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad ar yr adolygiad rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Awgrymodd un Aelod y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fynd ymhellach na gwneud argymhellion a bod angen gweithredu mwy cadarn. Teimlai Aelodau eraill y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol osgoi bod yn rhy orchmynnol ac y dylai gynnig canllawiau fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn hanfodol bod grwpiau tenantiaid yn sefydlu trefn datrys anghydfod er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu trin yn deg. Awgrymwyd y dylid cynnwys polisi datgelu camarfer fel y gallai unigolion roi gwybod am gamweddau heb ofni y byddai hynny'n arwain at ôl-effeithiau. Awgrymwyd hefyd fod angen canllawiau pellach ar ddefnyddio canolwr annibynnol, gan gynnwys sut a pha bryd y byddid yn troi at y gwasanaeth hwn.
- Cynigiodd y Gweinidog drafod gyda Janet Ryder yr achos lle mae yna anghydfod rhwng tenant unigol a'r Ffederasiwn.

8.5 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth symud yr arolwg rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yn ei flaen. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau yn nodi sut y byddai'n cyflawni'r ymrwymiad hwn.

**Eitem 9: Adolygiad polisi ar drosglwyddo'r stoc tai: LGH-05-01 (p.7)**

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod adroddiad yr adolygiad polisi ar drosglwyddo'r stoc tai wedi'i ddiwygio i adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor ar y drafft blaenorol yn y cyfarfod ar 28 Chwefror, yn ogystal â'r drafodaeth ar strwythurau cyfundrefnol yn y cyfarfod diwethaf. Yr oedd y prif newidiadau i'r adroddiad wedi'u hamlygu yn y papur a gyflwynwyd.

9.2 Crynhodd Judy Wayne y prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad, gan gynnwys yr angen i gynnwys staff a thenantiaid yn ystod y cyfnod arfarnu opsiynau, yr angen am well gwybodaeth am gyflwr y stoc a'r gwahanol drefniadau llywodraethu i gyrff trosglwyddo stoc. Teimlai ei bod yn bosibl i awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau sy'n addas i'w gofynion penodol hwy, a allai sicrhau'r buddsoddiad sy'n ofynnol i foderneiddio eu stoc tai.

9.3 Croesawai'r Gweinidog yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r materion a godir ynddo.

9.4 Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â chynnwys yr adroddiad diwygiedig. Dywedodd y Cadeirydd y câi ei gyhoeddi yn nhymor yr haf, gyda dadl wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod llawn ar 24 Mai. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd i Judy Wayne am ei chyfraniad amhrisiadwy i'r adolygiad.

**Eitem 10: Cyflwyniad gan y Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu**

10.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Athro Patrick O'Sullivan a'i gydweithwyr o'r Pwyllgor

Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu. Eglurodd yr Athro O'Sullivan mai swyddogaeth bennaf y Pwyllgor oedd rhoi cyngor i Weinidogion Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni safonau iechyd a diogelwch mewn adeiladau newydd ac yn y stoc tai bresennol. Dywedodd fod y Pwyllgor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried nifer o faterion a fu o ddiddordeb neilltuol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

10.2 O ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref, dywedodd yr Athro O'Sullivan fod cryn lawer o waith wedi'i wneud ar arbed ynni mewn adeiladau a gostwng lefel allyriannau deuocsid carbon. Yn dilyn ymarferiad ymgynghori, câi canllawiau diwygiedig ar Ran L eu cyhoeddi yn y dyfodol agos, ac mae Rheoliadau diwygiedig i fod i gael eu cyhoeddi erbyn yr haf. Yr oedd cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn ag adolygiad o Ran E yn ymwneud ag insiwleiddio rhag sn.

10.3 Dywedodd yr Athro O'Sullivan y byddai'n croesawu deialog pellach gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar sut yr oedd gwaith y gweithgor ar ddiogelwch rhag tân yn mynd rhagddo. Yr oedd y gweithgor yn ystyried synwyryddion mwg wedi'u weirio yn yr adeilad ar gyfer tai cymdeithasol yn ogystal â thaenellwyr mewn Tai Amlbreswyliaeth. O ran sgaldanu, cydnabyddai'r Athro O'Sullivan nad oes darpariaeth yn y Rheoliadau Adeiladu i sicrhau bod dr domestig yn cael ei storio ar dymheredd diogel. Cydnabyddai'r Pwyllgor Ymgynghorol yr angen am waith pellach i ganfod sut mae gweithredu'n fwyaf priodol i leihau'r risg o sgaldanu.

10.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â Chartrefi Oes a'r ffordd orau o annog y diwydiant codi tai yn y sector preifat i fabwysiadu'r safonau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob t cymdeithasol newydd yng Nghymru. Nodwyd mai'r safonau isaf sy'n ofynnol yw'r Rheoliadau Adeiladu ac y gellid rhagori arnynt. Dywedodd Paul Everall fod Rhan M, nad oedd yn berthnasol i dai yn gyffredinol tan yn ddiweddar, yn ymdrin â hygyrchedd. Yr oedd yna fodd bynnag beth gwrthwynebiad i rai agweddau o'r Rheoliadau; er enghraifft, byddai'n gostus iawn darparu cawod ar y llawr gwaelod ym mhob cartref. Y bwriad oedd monitro Rhan M dros y ddwy neu dair blynedd nesaf ac yna asesu a oes yna le i wella.
- Nodwyd bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn ystyried sut y gellid gwella diogelwch cartrefi drwy'r Rheoliadau Adeiladu. Yr oedd ymarferiad ymgynghori yn debygol yn 2002.
- Yr oedd yr Athro O'Sullivan yn awyddus i gael canlyniadau'r gwaith sydd ar y gweill yng Nghymru, yn enwedig enghreifftiau penodol lle gellid dangos bod gwell safonau wedi arwain at well canlyniadau.
- Yr oedd diddordeb gan yr Aelodau mewn gwybod i ba raddau yr oedd y Pwyllgor Ymgynghorol wedi cymryd profiadau gwledydd Ewropeaidd eraill i ystyriaeth. Nodwyd y byddai'r Rheoliadau Rhan L newydd yn gosod safonau ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y cartref sy'n cymharu â gwledydd eraill yn Ewrop. Teimlai Phil Roberts y gallai'r Pwyllgor Ymgynghorol ddysgu o brofiad Denmarc ar insiwleiddio.
- Cafwyd rhywfaint o drafod ar sut y gallai Rheoliadau Adeiladu leihau effaith llifogydd. Dywedodd yr Athro O'Sullivan na ellid disgwyl i'r Rheoliadau Adeiladu wneud iawn am ddiffygion yn y system cynllunio defnydd tir. Nodwyd bod Rhan A y Rheoliadau ar faterion strwythurol yn cael ei rhoi ar waith ar draws Cymru a Lloegr yn ddiwahân, a bod gweithgor

wedi'i sefydlu i ystyried a ddylai fod yna ofynion arbennig mewn ardaloedd sy'n tueddu i gael llifogydd. Yr oedd papur ymgynghorol i gael ei gyhoeddi yn yr haf. Nodwyd y gallai rhai mesurau a fyddai'n ddymunol efallai mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd gael effaith andwyol ar agweddau eraill o'r Rheoliadau; er enghraifft, gallai lloriau uwch effeithio ar hygyrchedd.

- Eglurodd Paul Everall mai dim ond i adeiladau newydd y mae'r Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol. Yr oedd hyn yn cynnwys estyniadau. Gydag estyniadau, er nad yw'n ofynnol i'r adeiladwr wella'r eiddo sydd yno'n barod, ni all ychwaith ei wneud yn waeth. Nodwyd y byddai'n cymryd rhwng 400 a 700 mlynedd i newid y stoc tai yn gyfan gwbl, yn ôl y gyfradd adnewyddu bresennol. Dywedodd Phil Roberts fod y Pwyllgor Ymgynghorol yn ystyried pa gamau allai fod yn briodol mewn perthynas â'r stoc tai bresennol.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â chyfansoddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Adeiladu. Dywedodd yr Athro O'Sullivan fod yr aelodaeth yn gytbwys erbyn hyn gyda chynrychiolaeth o'r diwydiant codi tai ac o blith defnyddwyr. Gwrthgyferbynnai hyn â'r sefyllfa yn y gorffennol pan oedd y Pwyllgor Ymgynghorol yn bennaf o dan ddylanwad cynrychiolwyr o'r ochr gyflenwi.

10.5 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Pwyllgor Ymgynghorol am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 11: Cofnodion cyfarfod 14 Mawrth: LGH-04-01 (min)**

11.1 Ar y pwynt bwled olaf ond un o baragraff 5.3 yngln â'r fframwaith moesegol ar gyfer llywodraeth leol, nodwyd mai'r awgrym oedd y dylai Llywydd a Dirprwy Lywydd y Panel Dyfarnu i Gymru fod yn bobl leyg. Fel arall, cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Ebrill 2001**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU YN DEILLIO O GYFARFOD 28 MAWRTH**

1. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn nodi manylion y cyhoeddiadau diweddar ar grantiau lleihau torcyfraith (paragraff 3.1).

2. Ymrwymodd y Gweinidog i ryddhau i'r Pwyllgor destun llawn ei datganiad diweddar at awdurdodau heddlu ar gynyddu cyllidebau (paragraff 3.2).

3. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y modd y cyllidir gwasanaethau Gofal a Thrwsio, gan gynnwys unrhyw gyllid oddi wrth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (paragraff 3.5).

4. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu datganiad ffeithiol yn nodi ei safbwynt mewn perthynas ag adroddiad diweddar yr Archwiliwr Dosbarth ar Gyngor Sir y Fflint

(paragraff 3.6).

5. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am ei chyhoeddiadau ar ymestyn y cynllun rhyddhad rhag trethi yng nghefn gwlad, cyllido BAWSO (Black Association of Women Step Out) ac ymestyn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (paragraff 3.7).

6. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu copi i'r Aelodau o gylch gwaith y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol mewn llywodraeth leol (paragraff 3.8).

7. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar gyfraniadau gwirfoddol gan unigolion a chyrff er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu hamcanion lles (paragraff 4.3).

8. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn egluro'r sefyllfa o ran rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â nhw fel rhan o'u prosesau contractio (paragraff 5.4).

9. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur pellach gerbron yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori ar y Gorchymyn drafft i ganiatáu i awdurdodau lleol roi sylw i faterion anfasnachol wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau (paragraff 5.5).

10. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn egluro sut y byddai'n cymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth symud yr arolwg rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yn ei flaen (paragraff 8.5).